Adnodd 3b.

# Sgript Stori Lowri

Darllenwch y sgript yma wrth i chi ddangos y cyflwyniad PowerPoint - adnodd 3a.




**<u>Sleid 2</u>**




Yn stori Lowri rydych yn mynd i glywed am y camgymeriad syml wnaeth Ryan a arweiniodd at iddo fynd i lawer o drwbl.
Fe glywch hefyd am y penderfyniadau gwael a wnaethpwyd gan 3 ffrind ac effaith y penderfyniadau hynny arnynt, yn enwedig Lowri.
**<u>CLICIWCH</u>**
Mae Ryan yn 15, ei ffrindiau ydi
**CLICIWCH** Azuben a Lowri, (sydd wedi bod yn mynd efo'i gilydd ers 3 mis).
**<u>CLICIWCH</u>** a Marcus, Kat a Naomi. Maent i gyd yn mynd i'r un ysgol ac maent ym mlwyddyn 10.
**<u>Cliciwch i fynd i'r sleid nesaf</u>**

**Sleid 3**





**CLICIWCH** Mae Lowri a Naomi yn ffrindiau gorau.
**CLICIWCH** Mae Ryan a Marcus wedi bod yn ffrindiau gorau ers yr ysgol gynradd
**CLICIWCH** ac roedd y ddau ohonynt yn ffansïo Kat – roedd hi yn ffansïo Ryan, ond roedd yn ffrindiau da â Marcus. Roedd ganddynt i gyd gyfrifon Facebook ac yn cadw mewn cysylltiad drwy negeseuon testun drwy'r dydd.
**Cliciwch i fynd i'r sleid nesaf**

**Sleid 4**



**CLICIWCH** Roedd Lowri ac Azuben yn anfon lluniau i'w gilydd yn rheolaidd. Roeddynt yn lluniau gwirion ond diniwed.
**CLICIWCH** Weithiau byddai Azuben yn dangos rhai o'r lluniau y byddai Lowri wedi'u hanfon ato i weddill y grŵp.
**Cliciwch i fynd i'r sleid nesaf**


**Sleid 5**




Roedd Marcus eisiau i Lowri anfon llun bronnoeth at Azuben am hwyl. Roedd Azuben yn meddwl ei fod yn syniad da a dechreuodd roi pwysau ar Lowri i anfon llun ato. Mi wnaeth addo ei gadw'n gyfrinach. Ar ôl llawer iawn o swnian ac weithiau efallai bron i 20 neges testun y dydd mi wnaeth ildio ac anfon llun ohoni'n fronnoeth ato. **CLICIWCH**

**CLICIWCH i fynd i'r sleid nesaf**

**Sleid 6**




Mi ddywedodd Azuben wrth Ryan a Marcus am y llun. **CLICIWCH** Mi wnaeth Ryan ddweud wrth Azuben i gael gwared o'r llun oherwydd ei fod wedi darllen yn rhywle y gallet gael dy hun i drwbwl os byddet yn cael dy ddal gydag ef ar dy ffôn. **CLICIWCH** Ar y llaw arall mi wnaeth Marcus swnian ar Azuben yn ddi-baid i gael gweld y llun, gan ddweud nad oedd yn ei gredu a'i fod yn dweud celwydd. Mi wnaeth Azuben ildio i'r pwysau gan Marcus ac mi wnaeth anfon llun Lowri ato. **CLICIWCH** Mi wnaeth Marcus ei anfon yn syth i bawb yn y grŵp.

**CLICIWCH i fynd i'r sleid nesaf**



HEDDLU POLICE
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Sleid 7**



Roedd yn embaras mawr i Lowri, roedd wedi'i siomi y byddai Marcus yn gwneud y fath beth.  Ond roedd hi'n ddiolchgar mai dim ond ei ffrindiau gorau oedd wedi'i weld, ac mi wnaeth erfyn arnynt i gael gwared ohono.

**CLICIWCH i fynd i'r sleid nesaf**

**Sleid 8**



Ar ôl ysgol mi aeth Marcus i dŷ Ryan.  Roedd Ryan yn siarad ar ei ffôn gyda Kat, roedd y ddau ohonynt wedi dychryn eu bod wedi cael y llun. **CLICIWCH** Fe ddywedodd Kat ei bod wedi'i ddileu yn syth ar ôl iddi ei gael ac roedd Naomi wedi gwneud yr un peth.  Fe ddywedodd Ryan y byddai'n gwneud yr un peth.  Mi wnaeth Marcus gyrraedd wrth i Ryan orffen siarad â Kat.

Roedd Marcus yn flin efo Ryan gan ei fod yn mynd yn rhy gyfeillgar â Kat.  Fe wnaeth rhywbeth ofnadwy tra roedd Ryan yn gwneud paned o de yn y gegin. Mi wnaeth edrych ar ffôn Ryan a gweld ei fod dal ar Facebook.  **CLICIWCH** Mi ddaeth o hyd i'r llun o Lowri yn negeseuon Ryan a rhoddodd y llun bronnoeth ar wal Lowri.  Mi wnaeth ysgrifennu rhywbeth annifyr dan enw Ryan.  Gan ddefnyddio ei ffôn ei hun, mi wnaeth Marcus anfon neges testun i weddill y grŵp i ddweud wrthynt beth oedd Ryan wedi'i wneud.


Erbyn i Ryan ddod yn ôl i mewn i'r ystafell roedd y difrod wedi'i wneud ac roedd Marcus wedi mynd.

**CLICIWCH i fynd i'r sleid nesaf.**



HEDDLU POLICE
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Sleid 9**



Roedd Lowri wedi torri'i chalon.  Roedd ei theulu a oedd hefyd ar ei rhestr ffrindiau yn flin iawn. Er bod Ryan wedi cael gwared o'r llun yn syth ar ôl iddo sylweddoli beth roedd wedi digwydd, roedd y llun bellach ar gael i unrhyw un ac yn anodd ei dileu – byddai pobl yn ei weld am amser hir i ddod. Mi wnaeth teulu Lowri gysylltu â'r Heddlu ac mi wnaethant gychwyn ymchwilio i'r mater.

Diwedd